



Dogfen Ymgynghori Ysgol Uwchradd John Summers Fersiwn i Bobl Ifanc

Beth a gynigir?

Na fydd addysg chweched dosbarth yn cael ei chynnig yn Ysgol Uwchradd John Summers o 31 Awst 2016. (Yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidog Cymru)

Pam rydym yn cynnig newid y trefniadau chweched dosbarth yn yr ysgol?

Mae gan Ysgol Uwchradd John Summers hanes hir o ddarparu addysg chweched dosbarth. Fodd bynnag mae'r ysgol a'r grŵp partneriaeth o ysgolion sy'n cynnig cyrsiau ôl-16 yn ei chael yn fwyfwy anodd i gynnal nifer y cyrsiau fel a ragnodir gan "Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)" Llywodraeth Cymru.

Pam rydym yn cynnig cau'r ysgol?

Mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol ar adeilad yr ysgol, ond ni ellir ceisio cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn pryderu am niferoedd disgyblion presennol a rhagamcanol yn yr ysgol, sydd yn ei dro yn effeithio ar gyllideb yr ysgol ac yn ei gwneud yn anodd i'r llywodraethwyr ddarparu digon o gyfleoedd cwricwlwm ar gyfer dysgwyr. Mae hefyd canran uchel o leoedd gwag yn yr ysgol sy'n golygu bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i adolygu'r ysgol.

Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers

Beth sy'n digwydd i'r chweched dosbarth yn 2016?

Mae'r Cyngor, Ysgol Uwchradd John Summers ac ysgolion uwchradd partneriaeth eraill yn yr ardal wedi bod yn adolygu'r ffordd y cynnig darpariaeth chweched dosbarth. Diben yr adolygiad yw gwneud yn siŵr bod yr ystod o gyrsiau sydd ar gael i fyfyrwyr chweched dosbarth yn bodloni gofynion Rheoliadau Llywodraeth Cymru. (Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru)) a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dysgwyr ôl-16.



Ymgynghori

Yn ôl yn 2013 gwnaethom ymweld â dy Ysgol pan gefaist ti, dy rieni/gofalwyr a chyngor yr ysgol gyfle i ddweud eich barn am gynnig ychydig yn wahanol a oedd yn cynnwys cael gwared ar ddarpariaeth chweched dosbarth. Roedd y Cyngor am ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac i ofyn i chi eto am eich barn am y cynnigion ar gyfer y chweched dosbarth.



Yr amserlen a gynnigir ar gyfer y newidiadau i'r chweched dosbarth?

Rydym yn cynnig cau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2016. O fis Medi 2016 ymlaen, bydd gan fyfyrwyr sy'n dymuno parhau eu haddysg ar ôl blwyddyn 11 ddewis i fynychu'r Ganolfan Ôl-16 newydd ar safle Coleg Cambria, Cei Connah.

Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers

Beth fydd yn newid ar gyfer y chweched dosbarth?

Ni fydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yn dy ysgol leol.

Ond bydd y cynnig hwn yn galluogi myfyrwyr i gael mynediad i ystod briodol o gyrsiau mewn un cyfleuster arbenigol, yn hytrach na chael mynediad i gyrsiau ar nifer o safleoedd ysgol.



A fyddaf yn gweld fy hen athrawon?

Efallai. Mae penodiadau staff addysgu ar gyfer y ganolfan newydd wedi'u clustnodi yn y lle cyntaf ar gyfer staff yn yr ysgolion partneriaeth (gan gynnwys Ysgol Uwchradd John Summers) ac ar gyfer staff y Coleg sy'n addysgu cyrsiau ôl-16 ar hyn o bryd.



Allaf i gael cludiant am ddim?

Bydd cludiant am ddim i'r ganolfan ôl-16 dim ond yn cael ei ddarparu os fyddi di'n gwneud cais ac yn bodloni'r meini prawf ym mholisi cludiant y Cyngor.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn dy ysgol ar yr adeg briodol.

Pwy sy'n gyfrifol am y Ganolfan?

Bydd y ganolfan Ôl-16 ar safle Coleg Cambria, Cei Connah. Bydd y ganolfan yn cael ei llywodraethu gan Goleg Cambria a bydd ar agor ar gyfer mis Medi 2016.

Mae dy ysgol a chynrychiolwyr llywodraethwyr yr ysgol wedi cymryd rhan mewn grŵp cynghori gydag ysgolion y bartneriaeth a'r coleg i sicrhau bod y cyfleuster wedi'i ddatblygu gyda buddiannau gorau dysgwyr mewn cof.



Sut mae cofrestru ar gyfer y ganolfan?

Bydd recriwtio ar gyfer derbyn yn 2015 yn cael ei weinyddu gan yr ysgolion partneriaeth a'r Coleg. (Bydd rhagor o gymorth ar gael yn dy ysgol ar yr adeg briodol)

Bydd lleoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o Flwyddyn 12 mewn ysgolion partneriaeth i Flwyddyn 13 yn y ganolfan Ôl-16 arfaethedig.

Wedi hynny, bydd derbyniadau i'r Ganolfan Ôl-16 yn cael eu gweinyddu gan y Coleg yn unol â'u polisi derbyn.



BETH SY'N WAHANOL?

Bydd y Ganolfan Ôl-16 newydd, Coleg Cambria, Cei Connah yn agor ym mis Medi 2016 a bydd y canlynol ar gael: -

- Dewisiadau pwnc ehangach i fyfyrwyr eu dewis
- Ystafelloedd Celf, TGCh a Dylunio a Thechnoleg newydd
- Ardaloedd astudio preifat
- Ardaloedd astudio cymdeithasol
- Cyfleusterau chwaraeon ar safle Coleg Cambria, yng Nglannau Dyfrdwy

Bydd y cyfleusterau yn newydd sbon ac wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer 700 o ddysgwyr ôl-16

Cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers

Beth fydd yn digwydd i Ysgol Uwchradd John Summers yn 2017?

Mae angen i'r Cyngor adolygu Ysgol Uwchradd John Summers fel rhan o'i Strategaeth Moderneiddio Ysgolion. Mae pryder am gyflwr, addasrwydd a chynaliadwyedd yr adeilad ysgol presennol, nifer y disgyblion presennol a rhagamcanol, pwysau ar ddyraniadau cyllideb yr ysgol a safonau'r ysgol.



Ymgynghori

Byddwn yn ymweld â dy ysgol a byddi di, dy rieni/gofalwyr a chyngor yr ysgol yn cael cyfle i ddweud eich barn am y cynnig i gau dy ysgol.



Yr amserlen arfaethedig ar gyfer cau'r Ysgol Uwchradd?

Rydym hefyd yn cynnig cau Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2017, rydym yn gobeithio cael penderfyniad gan Weinidog Cymru erbyn mis Chwefror 2016.

Cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers

Beth fydd yn newid?

Bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn cau a bydd angen i ti ddewis ysgol uwchradd arall o fewn yr ardal leol.

Pa ysgol allaf ei mynychu?

Galli wneud cais am le mewn unrhyw ysgol uwchradd o dy ddewis ond bydd y polisi derbyn yn berthnasol. Nid oes gan un ysgol yn yr ardal lawer o leoedd heb eu llenwi ond mae gan ysgolion eraill gerllaw ddigon o leoedd i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Uwchradd John Summers.

Alla i gael cludiant am ddim i fy Ysgol Uwchradd newydd?

Efallai, yn dibynnu ar dy ddewis o ysgol a lle rwyf ti'n byw. Bydd cludiant am ddim i'r ganolfan ôl-16 dim ond yn cael ei ddarparu i ti os wyt wedi gwneud cais am gludiant am ddim ac yn bodloni'r meini prawf ym mholisi cludiant y Cyngor.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn dy ysgol ar yr adeg briodol.

A fydd hyn yn effeithio ar fy addysg?

Rydym yn deall bod ad-drefnu ysgolion yn gallu bod yn amser cythryblus. Dyna pam mae'r amserlen ar gyfer ymgynghori wedi'i datblygu i gael penderfyniad Gweinidogol cyn gynted â phosibl er mwyn i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr a staff allu gwneud penderfyniadau am eu dyfodol.

Rydym yn gobeithio cael penderfyniad Gweinidogol erbyn mis Chwefror 2016. Mae hyn mewn pryd ar gyfer cylch derbyn yr ysgol ar gyfer mis Medi 2017, mae hefyd yn galluogi disgyblion ym mlwyddyn opsiynau i ddewis eu hopsiynau TGAU mewn ysgol arall

Bydd y Cyngor, Ysgol Uwchradd John Summers ynghyd ag ysgolion y bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd a llunio cynlluniau manwl a gaiff eu creu i ddiogelu dysgwyr cymaint â phosibl.

Er y galli ddewis unrhyw ysgol uwchradd leol sydd ar gael yn seiliedig ar ddewis personol, ysgol bartneru a enwebwyd y Cyngor yw Ysgol Uwchradd Cei Connah, byddant yn gweithio gyda dy ysgol i sicrhau bod disgyblion yn pontio'n llyfn.

Beth fydd yn digwydd i'r staff?

Bydd y Cyngor yn ceisio helpu staff i ddod o hyd i swydd addas mewn ysgolion eraill yn y Sir lle y bo'n bosibl, fodd bynnag efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser.



PA MOR HIR FYDD HYN YN EI GYMRYD?

Digwyddiadau

Cael barn pawb

Dweud wrth bawb beth rydym wedi penderfynu ei wneud

Gofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynnig

Rhagweld penderfyniad Gweinidogol am y newidiadau ôl-16 a chau'r ysgol

Os caiff ei gymeradwyo, cau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd John Summers

Agor y Ganolfan Ôl-16 newydd, Coleg Cambria yng Nghei Connah

Os caiff ei gymeradwyo, cau Ysgol Uwchradd John Summers

Dyddiadau

5 Mehefin 2015 – 17 Gorffennaf 2015

Awst 2015

Ionawr 2016

Chwefror 2016

Awst 2016

Medi 2016

Awst 2017

PAM RYDYM YN GOFYN I TI AM HYN?

Rydym eisiau gwybod beth yw dy farn am y cynlluniau chweched dosbarth a'r cynlluniau i gau'r ysgol.

Rydym hefyd yn gofyn i rieni/gofalwyr, athrawon a rhieni/gofalwyr ac athrawon mewn ysgolion eraill a phobl eraill sydd â diddordeb.

Mae hyn yn rhoi cyfle i ti ddweud wrthym beth yw dy farn a bydd dy farn yn llunio rhan o adroddiad i'n Cabinet ac i Weinidog Cymru.

Hoffem i ti ateb y cwestiynau ar y tudalennau cefn neu galli ddweud wrthym beth yw dy farn drwy fynd i

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

neu

Anfon e-bost atom yn

21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

EISIAU GWYBOD MWY?

Mae hon yn ddogfen grynodedb o'r Ymgynghoriad Ffurfiol llawn. Galli weld y fersiwn llawn ynghyd â llawer o wybodaeth, ffeithiau a ffigurau ar ein gwefan: -

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

BETH YW DY FARN?

Rwyt ti'n gwybod beth yw ein cynlluniau – rŵan rydym ni eisiau gwybod beth yw dy farn di am hyn. Gallu

Ysgrifennu dy atebion i'r cwestiynau ar y dudalen gefn, ei thorri i ffwrdd a'i hanfon drwy'r post i ni



yn: -
Tîm Moderneiddio Ysgolion
Addysg ac Ieuenctid
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6ND



Neu gwblhau dy atebion ar-lein yn
<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

Neu galli e-bostio 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk



Diolch am gymryd yr amser i edrych ar y cynnig hwn.

Os byddai'n well gen ti ddefnyddio e-bost, anfona dy atebion i 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Neu os byddai'n well gen ti ei lenwi ar-lein, defnyddia'r ddolen ganlynol

<http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review.aspx>

Wyt ti'n...(ticia bob un sy'n berthnasol)

Disgybl Ysgol Gynradd	<input type="radio"/>
Pa Ysgol Gynradd	<input type="radio"/>
Disgybl Ysgol Uwchradd BI 7-9	<input type="radio"/>
Disgybl Ysgol Uwchradd BI 10-11	<input type="radio"/>
Disgybl Ysgol Uwchradd BI 12-13	<input type="radio"/>
Disgybl-lywodraethwr cyswllt	<input type="radio"/>
Cynghorydd Ysgol	<input type="radio"/>
Mentor Cymheiriaid	<input type="radio"/>
Swyddog	<input type="radio"/>

Pa mor gryf wyt ti'n cytuno â'r bwriad i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Awst 2016

Cytuno'n Gryf	<input type="radio"/>
Tueddu i Gytuno	<input type="radio"/>
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	<input type="radio"/>
Tueddu i Anghytuno	<input type="radio"/>
Anghytuno'n Gryf	<input type="radio"/>

Pa mor gryf wyt ti'n cytuno â'r bwriad i gau Ysgol Uwchradd John Summers ym mis Awst 2017

Cytuno'n Gryf	<input type="radio"/>
Tueddu i Gytuno	<input type="radio"/>
Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	<input type="radio"/>
Tueddu i Anghytuno	<input type="radio"/>
Anghytuno'n Gryf	<input type="radio"/>

Os wyt am i adael i ni wybod dy farn am y cynllun, rhaid i ti anfon dy sylwadau atom erbyn [dydd Gwener 17 Gorffennaf 2015](#). Nid fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth ar ôl y dyddiad hwn.

Beth yw dy farn am y cynlluniau i gau chweched dosbarth Ysgol Uwchradd John Summers erbyn 31 Awst 2016, gyda darpariaeth ôl-16 yn cael ei darparu o fis Medi 2016 yn y Ganolfan Ôl-16 yng Ngholeg Cambria, Cei Connah?

Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei weld yn digwydd yn hytrach na'r hyn yr ydym ni yn ei gynllunio?

Beth yw dy farn am y cynnig i gau Ysgol Uwchradd John Summers erbyn mis Medi 2017?

Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei weld yn digwydd yn hytrach na'r hyn yr ydym ni yn ei gynnig ar gyfer yr Ysgol Uwchradd?

Os wyt am adael i ni wybod dy farn am y cynllun, rhaid i ti anfon dy sylwadau atom [erbyn dydd Gwener 17 Gorffennaf 2015](#). Nid fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth ar ôl y dyddiad hwn.